Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

06/12/2022

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Gwener, 16 Rhagfyr 2022 am 1.00 pm i drafod y materion canlynol:

1. **Gweddi**
2. **Ymddiheuriadau**
3. **Cadarnhau cofnodion y gyfarfod blaenorol (Tudalennau 3 - 4)**
4. **Croesawu aelodau newydd ac adolygu cyfrifoldebau'r Cyngor**
5. **Aelodaeth**
6. **Gohebiaeth**
7. **Ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r ddogfen Maes Llafur Cytûn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ALl C ar gyfer eu derbyn (Tudalennau 5 - 30)**
8. **Crynhoi sefyllfa newid cwricwlwm cenedlaethol**
9. **Diweddariad cenedlaethol**
10. **Cyflwyniad am addysgu CGM yn Ysgol Llangwyryfon gan Nerys Parry Pennaeth yr ysgol**
11. **Unrhyw Fusnes Arall**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda **ddydd Mercher, 26 Ionawr 2022**

YN BRESENNOL:
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorwyr Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason a Lynford Thomas

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Yr Athro Densil Morgan, Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Parchedig Aled Jones, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Yr Athro John Tudno Williams, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Anna Uruska, Yr Eglwys Gatholig, Y Parchedig Mark Ansell, Yr Eglwys yng Nghymru

Aelodau Cyfetholedig: Yr Athro Catrin Williams a Mr Maldwyn Pryse

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd:

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(4:00pm-5:00pm)

1 Gweddi
Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Parchedig Aled Jones yn arwain y pwyllgor mewn gweddi.

2 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd Mr Eirwyn Griffiths am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

3 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny
CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 yn gywir.

Materion yn codi
Dim.

4 Diweddariad ynghylch y seddi gwag ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)
Nododd y Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion fod Mr Maldwyn Pryse wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn aelod cyfetholedig o'r pwyllgor. Estynnodd pawb groeso iddo i'r pwyllgor fel aelod gwerthfawr a phrofiadol.

5 Trafod y trefniadau ar gyfer Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig. Yn gyntaf cyflwynwyd crynodeb i'r pwyllgor ynghylch gofynion cyfreithiol y Maes Llafur Cytunedig ac yna cytunwyd ar y canlynol:-

- dylai'r Rheolwr Corfforaethol barhau i chwilio am gynrychiolydd Dyneiddiol ar gyfer y pwyllgor;
- dylai'r Rheolwr Corfforaethol gysylltu â'r cynrychiolydd Mwslimaidd a awgrymwyd gan y pwyllgor;
- dylid gwahodd y ddau i'r Gynhadledd yn unol â hynny;
- dylid ystyried paratoi pecynnau ategol ar gyfer ysgolion ynghylch y maes llafur addysg grefyddol gan fod y maes llafur newydd yn annigonol ac oherwydd bod angen cynnwys cyfeiriadau at hanes a materion lleol yn y deunydd addysgu. Nododd y Rheolwr Corfforaethol fod deg athro wedi'u cyflogi yng Nghymru i wneud y gwaith ynghlwm wrth y cwricwlwm, a byddai angen ystyried os ydy'r deunydd a ddarperir ganddynt yn ddigonol cyn paratoi pecynnau ychwanegol;
- dylid darparu atodiad i'r maes llafur gyda chyfeiriadau at bethau lleol o ran addysg grefyddol;
- dylid darparu'r maes llafur ar ffurf pdf i bob Aelod gyda rhifau ar y tudalennau er mwyn i'r darllenydd allu cyfeirio ato'n hawdd;
- dylid cynnal y Gynhadledd am 2pm ddydd Gwener, 04 Mawrth 2022;
- dylai Miss Joyce Howells gadeirio'r Gynhadledd; a
- chytunodd yr holl Aelodau ar yr agenda drafft ar gyfer y Gynhadledd fel y'i cyflwynwyd.

Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Adroddiad Blynyddol 2021-2022

CYNNWYS

1. Cyflwyniad

1.1 Cyfansoddiad, rôl a chyfrifoldebau CYSAG
1.2 Aelodaeth CYSAG Ceredigion
1.3 Crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod Medi 2021 - Awst 2022
1.4 Crynodeb Gweithredol

2. Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

2.1 Maes Llafur Cytunedig ar Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
2.2 Cefnogi a monitro gweithredu'r Maes Llafur Cytunedig / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
2.3 Swyddog Cyswllt yr Awdurdod Addysg Lleol ar Addysg Grefyddol /Crefydd , Gwerthoedd a Moeseg
2.4 Dadansoddiad o Ganlyniadau Arholiadau Allanol Haf 2022
2.5 Y camau a gymerwyd ar sail Canlyniadau'r Arholiadau Allanol

3. Addoli ar y Cyd

3.1 Monitro addoli ar y cyd - Adroddiadau Arolygu Estyn
3.2 Penderfyniadau / Argymhellion

4. Materion Eraill / Crynodeb o Faterion Eraill

4.1 Aelodaeth CCYSAGauC
4.2 Penodiadau ac ymddeoliadau

1 CYFLWYNIAD

1.1 Cyfansoddiad, rôl a chyfrifoldebau CYSAG

Caiff aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ei phennu gan Ddeddf Addysg 1944 a Deddf Addysg 1988. Mae tri grŵp cyfansoddol yn perthyn i GYSAG ac mae gan bob grŵp hawl i un bleidlais:

1. Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill.

2. Cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon.

3. Yr Awdurdod Lleol.

Yn ogystal â hyn, ceir aelodau cyfetholedig.

Rôl a Chyfrifoldebau CYSAG:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar Addysg Grefyddol / Crefydd Gwerthoedd a Moeseg ac Addoli ar y Cyd

- Mynnu bod yr awdurdod yn adolygu'r Maes Llafur Cytunedig

- Ystyried ceisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfyniadau (i gael eu heithrio o'r gofynion bod addoli yn 'Gristnogol') Bydd y disgwyliad hwn yn dod i ben yn Awst 2023.

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith

- Cyfranogi yn y weithdrefn gwyno statudol leol y cyfeirir achosion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol / Crefydd Gwerthoedd a Moeseg neu Addoli ar y Cyd

1.2. **Aelodaeth CYSAG Ceredigion**

Yr Awdurdod Addysg Lleol

- Y Cynghorydd Keith Evans
- Y Cynghorydd Lyndon Lloyd, MBE - (hyd yr etholiad ym Mai)
- Y Cynghorydd Dai Mason - (hyd yr etholiad ym Mai)
- Y Cynghorydd John Roberts
- Y Cynghorydd Lynford Thomas - (hyd yr etholiad ym Mai)

Enwadau Crefyddol

- Y Parchedig Aled Jones – Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
- Y Parchedig Ddr John Tudno Williams – Eglwys Bresbyteraidd Cymru (Dirprwy Gadeirydd)
- Y Parchedig Mark Ansell – Yr Eglwys yng Nghymru
- Y Parchedig Ddr Densil Morgan - Undeb Bedyddwyr Cymru
- Anna Uruska- – Yr Eglwys Gatholig
- Parchedig Wyn Thomas - Undodiaid

Cynrychiolwyr Athrawon

- Miss Joyce Howells (Cadeirydd)
- Mrs Alwen Roberts (UCAC)
- Mr Eirwyn Griffiths (Y Sector Cynradd)

Aelodau Cyfetholedig

- Yr Athro Catrin Williams – Prifysgol Y Drindod Dewi Sant
- Maldwyn Pryce- AM wedi ymddeol
- Yn wag
- Yn wag

1.3 Crynodeb o'r Cyfarfodydd

Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod Medi 2021 - Awst 2022

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol [CYSAG] rhwng Medi 2020 - Awst 2021 ar y dyddiadau canlynol;

- 16eg o Ragfyr 2021,
- 26ain o Ionawr, 2022
- 18fed o Fehefin, 2022.

Yn ogystal, cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn ar y 3ydd o Fawrth, 2022.

Mae crynodeb byr o'r prif eitemau a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd fel a ganlyn:

1.Llefydd gwag ar y Cyngor

Rhoddwyd ystyriaeth i gynrychiolwyr addas i gynrychioli'r Aelodau Cyfetholedig ar y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn cysylltu â'r personau a gynigwyd i weld a oedd ganddynt ddiddordeb mewn dod yn Aelodau o'r Pwyllgor. O ran cynrychiolydd Dyneiddiol, cytunwyd y byddid yn ceisio cael cynrychiolydd dwyieithog, lleol.

3.Darparwyd cyflwyniad ar y ddogfen **'Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd Gwerthoedd a Moeseg**.' a thrafodwyd hi'n fanwl.

4.Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Ystyriwyd y ddogfen ymgynghori o ran Canllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn dilyn sylwadau oddi wrth Aelodau cytunwyd y byddai' y Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn coladu sylwadau a'u dosbarthu er ystyriaeth. Yn dilyn mewnbwn pellach y cyngor cyflwynwyd y ddogfen i Lywodraeth Cymru.

3. Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Ceredigion Cofnodion:

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad drafft a gafodd ei gylchredeg i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Yn dilyn mân ddiwygiadau cytunwyd derbyn yr adroddiad.

1.4 Crynodeb Gweithredol
Crynodeb o'r cyngor a roddwyd gan GYSAG i'r Awdurdod Lleol:

Nod: Sicrhau cynrychiolaeth mor eang â phosibl ar GYSAG
Argymhellwyd i'r Awdurdod Addysg Lleol gan GYSAG ei fod yn ceisio sicrhau bod pob swydd ar y pwyllgor yn cael ei llenwi.

Gweithredu:
1. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn monitro adroddiadau arolygu ac yn ysgrifennu at ysgolion i longyfarch y rhai a dderbyniodd adroddiadau arolygu da neu dda iawn.

2. Mae CYSAG yn ysgrifennu at ysgolion ar ôl dadansoddi canlyniadau arholiadau. Mae'r llythyr yn cynnwys llongyfarchion am ganlyniadau da, lle'n briodol, a/neu'n cyfeirio at faterion y dylai'r ysgol fod yn mynd i'r afael â nhw o ganlyniad i'r dadansoddiad hwn.

3. Lle bo gofyn, cynigir hyfforddiant i ysgolion ar Addysg/Astudiaethau Crefyddol.

2. ADDYSG GREFYDDOL

2.1 Maes Llafur Cytunedig ar Addysg Grefyddol
Nod: cyflawni gofynion cyfreithiol y maes llafur cytunedig ar Addysg Grefyddol.

MAES LLAFUR CYTUNEDIG CEREDIGION AR ADDYSG GREFYDDOL

Mabwysiadwyd Maes Llafur Cytunedig cyfredol Ceredigion ym mis Mawrth 2009 i'w weithredu o fis Medi 2009. Mae'n seiliedig ar Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed a luniwyd gan APADGOS ac a addaswyd i fodloni anghenion ysgolion a disgyblion Ceredigion. Dosbarthwyd copïau o'r Maes Llafur Cytunedig i bob ysgol yn y sir, fel copi caled ar ffurf llyfr a chopi electronig ar CD. Darparwyd Hyfforddiant mewn Swydd ar Addysg Grefyddol yn benodol ar gyfer athrawon cynradd ar y pryd.
Ar 18fed o Hydref 2019, penderfynodd yr Aelodau argymell mabwysiadu Maes Llafur Cytunedig ar Addysg Grefyddol Ceredigion, fel o'r blaen. Mae'r Maes Llafur hwn yn parhau'n berthnasol i'r ysgolion uwchradd sydd hyd yma ddim wedi mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru fel eu cwricwlwm newydd hyd yma.
Mae ysgolion cynradd y sir ac un ysgol gydol oed bellach yn mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru yn Medi 2022, ac felly byddant yn dilyn y Maes Llafur Cytûn newydd a dderbyniwyd gan GYSGA Ceredigion yn y gynhadledd ar Fawrth y 3ydd, 2022.

2.2 Cefnogi a monitro gweithredu'r Maes Llafur Cytunedig.

Mae CYSAG yn parhau i sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol systemau ar waith i gefnogi a monitro gweithredu'r Maes Llafur Cytunedig yn effeithiol, megis:

Cefnogi:

- Rhoi cyngor a chymorth i athrawon
- Ymweliadau ag ysgolion ac ymgynghoriadau yn ôl yr angen

Monitro

- Dadansoddi adroddiadau arolygu Estyn ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd
- Dadansoddi canlyniadau arholiadau allanol
- Darparu ymweliadau ag ysgolion ar gais er mwyn rhoi arweiniad ar Addysg Grefyddol

2.3 Swyddog Cyswllt y Sir ar Addysg Grefyddol

Mae Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion, yn gyswllt rhwng y sir a ChYSAG ac felly mae'n gweithredu fel Ymgynghorydd Cyswllt. Mae'r penodiad hwn yn sicrhau bod CYSAG yn parhau i dderbyn y wybodaeth angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei rôl o fonitro a chefnogi Maes Llafur Cytunedig Ceredigion a chynghori'r Awdurdod Lleol ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

2.4 Dadansoddiad o Ganlyniadau Arholiadau Allanol Haf 2022

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni aseswyd disgyblion TGAU na Lefel A 2022 ar y maes llafur llawn ac roedd yr arholiadau yn rhai byrrach na'r rhai arferol.
Mae'r drefn arholiadau wedi ei heffeithio gan y panemig ers tair blynedd bellach ac o'r herwydd nid yw'n ddoeth cymharu data'r tair blynedd diwethaf.

CA4

KS4 Religious Studies results, Ceredigion: 2019/20 - 2021/22

Full course	Cohort			A*-A			A*-C			A*-G		
	2019/20	2020/21	2021/22	2019/20	2020/21	2021/22	2019/20	2020/21	2021/22	2019/20	2020/21	2021/22
PRU	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Aberaeron	*	13	13	*	38.5	30.8	*	84.6	84.6	*	100.0	100.0
Aberteifi	33	39	18	66.7	30.8	61.1	100.0	79.5	94.4	100.0	100.0	94.4
Penglais	-	-	19	-	-	42.1	-	-	89.5	-	-	100.0
Penweddig	12	9	6	66.7	55.6	16.7	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0
Bro Teifi	18	11	14	72.2	81.8	21.4	100.0	100.0	57.1	100.0	100.0	92.9
Bro Pedr	-	16	7	-	43.8	71.4	-	93.8	100.0	-	100.0	100.0
Henry Richard	8	*	-	50.0	*	-	100.0	*	-	100.0	*	-
Ceredigion	**73**	**90**	**77**	**67.1**	**43.3**	**41.6**	**100.0**	**87.8**	**85.7**	**100.0**	**100.0**	**97.4**
Boys	15	14	16	73.3	28.6	37.5	100.0	92.9	75.0	100.0	100.0	93.8
Girls	58	76	61	65.5	46.1	42.6	100.0	86.8	88.5	100.0	100.0	98.4
History	*250*	*197*	*183*	*49.2*	*57.9*	*42.1*	*91.2*	*92.4*	*85.2*	*100.0*	*100.0*	*99.5*
Geography	*204*	*147*	*145*	*50.0*	*62.6*	*55.9*	*91.7*	*93.2*	*95.2*	*100.0*	*99.3*	*100.0*

* figures based on cohorts of fewer than 5 pupils

Short Course	Cohort			A*-A			A*-C			A*-G		
	2019/20	2020/21	2021/22	2019/20	2020/21	2021/22	2019/20	2020/21	2021/22	2019/20	2020/21	2021/22
PRU	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Aberaeron	72	65	56	11.1	23.1	17.9	34.7	63.1	55.4	98.6	98.5	92.9
Aberteifi	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Penglais	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Penweddig	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Bro Teifi	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Bro Pedr	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Henry Richard	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ceredigion	**72**	**65**	**56**	**11.1**	**23.1**	**17.9**	**34.7**	**63.1**	**55.4**	**98.6**	**98.5**	**92.9**
Boys	43	43	31	2.3	18.6	16.1	20.9	48.8	48.4	100.0	97.7	87.1
Girls	28	22	25	25.0	31.8	20.0	57.1	90.9	64.0	100.0	100.0	100.0

CA5

KS5 Religious Studies results, Ceredigion: 2018/19 - 2020/21

A-Level	Cohort			A*-A			A*-C			A*-E		
	2018/19	2019/20	2020/21	2018/19	2019/20	2020/21	2018/19	2019/20	2020/21	2018/19	2019/20	2020/21
PRU	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Aberaeron	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Aberteifi	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Penglais	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Penweddig	*	6	*	*	50.0	*	*	83.3	*	*	100.0	*
Bro Teifi	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Bro Pedr	*	7	6	*	28.6	50.0	*	100.0	100.0	*	100.0	100.0
Henry Richard	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ceredigion	**11**	**19**	**16**	**9.1**	**36.8**	**50.0**	**90.9**	**94.7**	**100.0**	**100.0**	**100.0**	**100.0**
Boys	-	*	*	-	*	*	-	*	*	-	*	*
Girls	11	17	12	9.1	41.2	58.3	90.9	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0
History	*60*	*47*	*53*	*33.3*	*57.4*	*60.4*	*95.0*	*100.0*	*96.2*	*100.0*	*100.0*	*100.0*
Geography	*41*	*35*	*45*	*41.5*	*42.9*	*75.6*	*87.8*	*97.1*	*93.3*	*100.0*	*100.0*	*100.0*

* figures based on cohorts of fewer than 5 pupils

2.5 Y Camau a gymerwyd mewn perthynas â'r canfyddiadau ar ganlyniadau'r Arholiadau Allanol

Llongyfarchodd yr Aelodau'r holl ymgeiswyr a lwyddodd yn yr arholiadau Astudiaethau Crefyddol a hefyd yr athrawon am eu gwaith caled a'u hymroddiad. O'r saith Ysgol Uwchradd, roedd 90 ymgeisydd ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Nodir mai dim ond un ysgol sy'n cynnig achrediad mewn TGAU Cwrs Byr yn Arholiadau'r Haf yng Ngheredigion. Yn ychwanegol at hyn, dim ond pedair o saith Ysgol Uwchradd yr Awdurdod Lleol gofrestrodd ymgeiswyr i sefyll Arholiadau Lefel Uwch.

Addoli ar y Cyd

Nod: sicrhau bod ysgolion yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn rhoi profiad gwerthfawr i'r disgyblion.

Gweithredu:

1) Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro'r adrannau o'r adroddiadau arolygu sy'n ymdrin ag addoli ar y cyd ac yn ysgrifennu at ysgolion i longyfarch y rhai sy'n cyflawni'r gofynion statudol ac yn hyrwyddo elfennau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol da.
2) Bydd CYSAG yn gofyn am gael gweld y cynllun gweithredu ar gyfer yr ysgolion hynny nad ydynt yn cyflawni'n llawn y gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

3.1 Monitro Addoli ar y Cyd - Adroddiadau Arolygu Estyn

Mae CYSAG yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion, cynnig cyngor ar y ddarpariaeth ar gyfer Addoli ar y Cyd a gwneud argymhellion ynghylch penderfyniadau.
Mae CYSAG Ceredigion yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
Yn ystod y cyfnod o fis Medi 2020 tan Awst 2021, ni fu Estyn yn arolygu ysgolion oherwydd y pandemig.

Mae'r Awdurdod Addysg yn falch i nodi bod yr ysgolion yn cynnal darpariaeth addoli ar y cyd yn rhithiol yn ystod cyfnod y pandemig.

Penderfyniadau

Ni chafwyd penderfyniadau yn gofyn am ddatgymhwyso'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd yn ystod y cyfnod hwn.

4. Materion Eraill/Crynodeb o Faterion Eraill

4.1 Aelodaeth o CCYSAGauC

Mae CYSAG Ceredigion yn parhau â'i aelodaeth o CCYSAGauC ac mae cynrychiolwyr wedi bod mewn cyfarfodydd CCYSAGauC. Trafodwyd gohebiaeth a materion yn codi o

gyfarfodydd CCYSAGauC yng nghyfarfodydd CYSAG. Ni throsglwyddwyd unrhyw faterion a gododd mewn cyfarfodydd CYSAG i CCYSAGauC i'w hystyried eleni.

4.2 Penodiadau ac Ymddeoliadau

Yn ystod y flwyddyn gwnaethpwyd ymdrechion cydwybodol i lenwi seddi gwag ar GYSGA Ceredigion. Llwyddwyd i ddenu Anna Uruska fel cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig ac a'r Parch Wyn Thomas, ar ran yr Undodiaid i ymuno a ni chroesawir hwy'n gynnes i'n mysg.

Yn anffodus, ni lwyddwyd i ddenu aelod o'r gymuned Fw

CYNGOR SIR CEREDIGION

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Adroddiad Blynyddol 2021-2022

CYNNWYS

1. Cyflwyniad

1.1 Cyfansoddiad, rôl a chyfrifoldebau CYSAG
1.2 Aelodaeth CYSAG Ceredigion
1.3 Crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod Medi 2021 - Awst 2022
1.4 Crynodeb Gweithredol

2. Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

2.1 Maes Llafur Cytunedig ar Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
2.2 Cefnogi a monitro gweithredu'r Maes Llafur Cytunedig / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
2.3 Swyddog Cyswllt yr Awdurdod Addysg Lleol ar Addysg Grefyddol /Crefydd , Gwerthoedd a Moeseg
2.4 Dadansoddiad o Ganlyniadau Arholiadau Allanol Haf 2022
2.5 Y camau a gymerwyd ar sail Canlyniadau'r Arholiadau Allanol

3. Addoli ar y Cyd

3.1 Monitro addoli ar y cyd - Adroddiadau Arolygu Estyn
3.2 Penderfyniadau / Argymhellion

4. Materion Eraill / Crynodeb o Faterion Eraill

4.1 Aelodaeth CCYSAGauC
4.2 Penodiadau ac ymddeoliadau

1 CYFLWYNIAD

1.1 Cyfansoddiad, rôl a chyfrifoldebau CYSAG

Caiff aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ei phennu gan Ddeddf Addysg 1944 a Deddf Addysg 1988. Mae tri grŵp cyfansoddol yn perthyn i GYSAG ac mae gan bob grŵp hawl i un bleidlais:

1. Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill.

2. Cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon.

3. Yr Awdurdod Lleol.

Yn ogystal â hyn, ceir aelodau cyfetholedig.

Rôl a Chyfrifoldebau CYSAG:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar Addysg Grefyddol / Crefydd Gwerthoedd a Moeseg ac Addoli ar y Cyd

- Mynnu bod yr awdurdod yn adolygu'r Maes Llafur Cytunedig

- Ystyried ceisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfyniadau (i gael eu heithrio o'r gofynion bod addoli yn 'Gristnogol') Bydd y disgwyliad hwn yn dod i ben yn Awst 2023.

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith

- Cyfranogi yn y weithdrefn gwyno statudol leol y cyfeirir achosion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol / Crefydd Gwerthoedd a Moeseg neu Addoli ar y Cyd

1.2. **Aelodaeth CYSAG Ceredigion**

Yr Awdurdod Addysg Lleol

- Y Cynghorydd Keith Evans
- Y Cynghorydd Lyndon Lloyd, MBE - (hyd yr etholiad ym Mai)
- Y Cynghorydd Dai Mason - (hyd yr etholiad ym Mai)
- Y Cynghorydd John Roberts
- Y Cynghorydd Lynford Thomas - (hyd yr etholiad ym Mai)

Enwadau Crefyddol

- Y Parchedig Aled Jones - Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
- Y Parchedig Ddr John Tudno Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru (Dirprwy Gadeirydd)
- Y Parchedig Mark Ansell - Yr Eglwys yng Nghymru
- Y Parchedig Ddr Densil Morgan - Undeb Bedyddwyr Cymru
- Anna Uruska- - Yr Eglwys Gatholig
- Parchedig Wyn Thomas - Undodiaid

Cynrychiolwyr Athrawon

- Miss Joyce Howells (Cadeirydd)
- Mrs Alwen Roberts (UCAC)
- Mr Eirwyn Griffiths (Y Sector Cynradd)

Aelodau Cyfetholedig

- Yr Athro Catrin Williams - Prifysgol Y Drindod Dewi Sant
- Maldwyn Pryce- AM wedi ymddeol
- Yn wag
- Yn wag

1.3 Crynodeb o'r Cyfarfodydd

Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod Medi 2021 - Awst 2022

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol [CYSAG] rhwng Medi 2020 - Awst 2021 ar y dyddiadau canlynol;

- 16eg o Ragfyr 2021,
- 26ain o Ionawr, 2022
- 18fed o Fehefin, 2022.

Yn ogystal, cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn ar y 3ydd o Fawrth, 2022.

Mae crynodeb byr o'r prif eitemau a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd fel a ganlyn:

1.Llefydd gwag ar y Cyngor

Rhoddwyd ystyriaeth i gynrychiolwyr addas i gynrychioli'r Aelodau Cyfetholedig ar y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn cysylltu â'r personau a gynigwyd i weld a oedd ganddynt ddiddordeb mewn dod yn Aelodau o'r Pwyllgor. O ran cynrychiolydd Dyneiddiol, cytunwyd y byddid yn ceisio cael cynrychiolydd dwyieithog, lleol.

3.Darparwyd cyflwyniad ar y ddogfen **'Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd Gwerthoedd a Moeseg**.' a thrafodwyd hi'n fanwl.

4.Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Ystyriwyd y ddogfen ymgynghori o ran Canllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn dilyn sylwadau oddi wrth Aelodau cytunwyd y byddai' y Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn coladu sylwadau a'u dosbarthu er ystyriaeth. Yn dilyn mewnbwn pellach y cyngor cyflwynwyd y ddogfen i Lywodraeth Cymru.

3. Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Ceredigion Cofnodion:

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad drafft a gafodd ei gylchredeg i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Yn dilyn mân ddiwygiadau cytunwyd derbyn yr adroddiad.

1.4 Crynodeb Gweithredol

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd gan GYSAG i'r Awdurdod Lleol:

Nod: Sicrhau cynrychiolaeth mor eang â phosibl ar GYSAG
Argymhellwyd i'r Awdurdod Addysg Lleol gan GYSAG ei fod yn ceisio sicrhau bod pob swydd ar y pwyllgor yn cael ei llenwi.

Gweithredu:
1. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn monitro adroddiadau arolygu ac yn ysgrifennu at ysgolion i longyfarch y rhai a dderbyniodd adroddiadau arolygu da neu dda iawn.

2. Mae CYSAG yn ysgrifennu at ysgolion ar ôl dadansoddi canlyniadau arholiadau. Mae'r llythyr yn cynnwys llongyfarchion am ganlyniadau da, lle'n briodol, a/neu'n cyfeirio at faterion y dylai'r ysgol fod yn mynd i'r afael â nhw o ganlyniad i'r dadansoddiad hwn.

3. Lle bo gofyn, cynigir hyfforddiant i ysgolion ar Addysg/Astudiaethau Crefyddol.

2. ADDYSG GREFYDDOL

2.1 Maes Llafur Cytunedig ar Addysg Grefyddol
Nod: cyflawni gofynion cyfreithiol y maes llafur cytunedig ar Addysg Grefyddol.

MAES LLAFUR CYTUNEDIG CEREDIGION AR ADDYSG GREFYDDOL

Mabwysiadwyd Maes Llafur Cytunedig cyfredol Ceredigion ym mis Mawrth 2009 i'w weithredu o fis Medi 2009. Mae'n seiliedig ar Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed a luniwyd gan APADGOS ac a addaswyd i fodloni anghenion ysgolion a disgyblion Ceredigion. Dosbarthwyd copïau o'r Maes Llafur Cytunedig i bob ysgol yn y sir, fel copi caled ar ffurf llyfr a chopi electronig ar CD. Darparwyd Hyfforddiant mewn Swydd ar Addysg Grefyddol yn benodol ar gyfer athrawon cynradd ar y pryd.
Ar 18fed o Hydref 2019, penderfynodd yr Aelodau argymell mabwysiadu Maes Llafur Cytunedig ar Addysg Grefyddol Ceredigion, fel o'r blaen. Mae'r Maes Llafur hwn yn parhau'n berthnasol i'r ysgolion uwchradd sydd hyd yma ddim wedi mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru fel eu cwricwlwm newydd hyd yma.
Mae ysgolion cynradd y sir ac un ysgol gydol oed bellach yn mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru yn Medi 2022, ac felly byddant yn dilyn Maes Llafur cytûn newydd a dderbyniwyd gan GYSGA Ceredigion yn y gynhadledd ar Fawrth y 3ydd, 2022.

2.2 Cefnogi a monitro gweithredu'r Maes Llafur Cytunedig.

Mae CYSAG yn parhau i sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol systemau ar waith i gefnogi a monitro gweithredu'r Maes Llafur Cytunedig yn effeithiol, megis:

Cefnogi:

- Rhoi cyngor a chymorth i athrawon
- Ymweliadau ag ysgolion ac ymgynghoriadau yn ôl yr angen

Monitro

- Dadansoddi adroddiadau arolygu Estyn ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd
- Dadansoddi canlyniadau arholiadau allanol
- Darparu ymweliadau ag ysgolion ar gais er mwyn rhoi arweiniad ar Addysg Grefyddol

2.3 Swyddog Cyswllt y Sir ar Addysg Grefyddol

Mae Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion, yn gyswllt rhwng y sir a ChYSAG ac felly mae'n gweithredu fel Ymgynghorydd Cyswllt. Mae'r penodiad hwn yn sicrhau bod CYSAG yn parhau i dderbyn y wybodaeth angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei rôl o fonitro a chefnogi Maes Llafur Cytunedig Ceredigion a chynghori'r Awdurdod Lleol ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

2.4 Dadansoddiad o Ganlyniadau Arholiadau Allanol Haf 2022

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni aseswyd disgyblion TGAU na Lefel A 2022 ar y maes llafur llawn ac roedd yr arholiadau yn rhai byrrach na'r rhai arferol.
Mae'r drefn arholiadau wedi ei heffeithio gan y panemig ers tair blynedd bellach ac o'r herwydd nid yw'n ddoeth cymharu data'r tair blynedd diwethaf.

CA5

2.5 Y Camau a gymerwyd mewn perthynas â'r canfyddiadau ar ganlyniadau'r Arholiadau Allanol

Llongyfarchodd yr Aelodau'r holl ymgeiswyr a lwyddodd yn yr arholiadau Astudiaethau Crefyddol a hefyd yr athrawon am eu gwaith caled a'u hymroddiad. O'r saith Ysgol Uwchradd, roedd 90 ymgeisydd ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Nodir mai dim ond un ysgol sy'n cynnig achrediad mewn TGAU Cwrs Byr yn Arholiadau'r Haf yng Ngheredigion. Yn ychwanegol at hyn, dim ond pedair o saith Ysgol Uwchradd yr Awdurdod Lleol gofrestrodd ymgeiswyr i sefyll Arholiadau Lefel Uwch.

Addoli ar y Cyd

Nod: sicrhau bod ysgolion yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn rhoi profiad gwerthfawr i'r disgyblion.

Gweithredu:

1) Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro'r adrannau o'r adroddiadau arolygu sy'n ymdrin ag addoli ar y cyd ac yn ysgrifennu at ysgolion i longyfarch y rhai sy'n cyflawni'r gofynion statudol ac yn hyrwyddo elfennau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol da.
2) Bydd CYSAG yn gofyn am gael gweld y cynllun gweithredu ar gyfer yr ysgolion hynny nad ydynt yn cyflawni'n llawn y gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

3.1 Monitro Addoli ar y Cyd - Adroddiadau Arolygu Estyn

Mae CYSAG yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion, cynnig cyngor ar y ddarpariaeth ar gyfer Addoli ar y Cyd a gwneud argymhellion ynghylch penderfyniadau.
Mae CYSAG Ceredigion yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
Yn ystod y cyfnod o fis Medi 2020 tan Awst 2021, ni fu Estyn yn arolygu ysgolion oherwydd y pandemig.

Mae'r Awdurdod Addysg yn falch i nodi bod yr ysgolion yn cynnal darpariaeth addoli ar y cyd yn rhithiol yn ystod cyfnod y pandemig.

Penderfyniadau

Ni chafwyd penderfyniadau yn gofyn am ddatgymhwyso'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd yn ystod y cyfnod hwn.

4. Materion Eraill/Crynodeb o Faterion Eraill

4.1 Aelodaeth o CCYSAGauC

Mae CYSAG Ceredigion yn parhau â'i aelodaeth o CCYSAGauC ac mae cynrychiolwyr wedi bod mewn cyfarfodydd CCYSAGauC. Trafodwyd gohebiaeth a materion yn codi o

gyfarfodydd CCYSAGauC yng nghyfarfodydd CYSAG. Ni throsglwyddwyd unrhyw faterion a gododd mewn cyfarfodydd CYSAG i CCYSAGauC i'w hystyried eleni.

4.2 Penodiadau ac Ymddeoliadau

Yn ystod y flwyddyn gwnaethpwyd ymdrechion cydwybodol i lenwi seddi gwag ar GYSGA Ceredigion. Llwyddwyd i ddenu Anna Uruska fel cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig ac a'r Parch Wyn Thomas, ar ran yr Undodiaid i ymuno a ni chroesawir hwy'n gynnes i'n mysg.

Yn anffodus, ni lwyddwyd i ddenu aelod o'r gymuned Fwslemiaid nac o du'r Dyneiddwyr.

Yn sgil yr etholiad collodd CYSAG Ceredigion dri aelod ffyddlon a gwerthfawr iawn , sef y Cynghorydd Lyndon Lloyd, MBE, Y Cynghorydd Dai Mason a'r Cynghorydd Lynford Thomas. Dymunwn ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu hymroddiad cydwybodol i'r CYSAG Ceredigion ar draws y blynyddoedd.

slemiaid nac o du'r Dyneiddwyr.

Yn sgil yr etholiad collodd CYSAG Ceredigion dri aelod ffyddlon a gwerthfawr iawn , sef y Cynghorydd Lyndon Lloyd, MBE, Y Cynghorydd Dai Mason a'r Cynghorydd Lynford Thomas. Dymunwn ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu hymroddiad cydwybodol i'r CYSAG Ceredigion ar draws y blynyddoedd.

Maes Llafur Cytûn

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Awdurdod Lleol Ceredigion

Cyflwyniad

Yn unol â gofynion statudol Cwricwlwm i Gymru, 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' (CGM) yw'r enw a roddir bellach i Addysg Grefyddol. Yn sgil Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn sgil ymrwymiadau i ddarparu canllawiau ychwanegol ar agweddau penodol ar y cwricwlwm, gwnaethpwyd ychwanegiadau a diweddariadau pellach i ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru gan gynnwys ychwanegiadau mewn perthynas â'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Fel un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth, hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain hefyd.

Mae CGM yn dal i gael ei benderfynu'n lleol ac felly, yn ogystal ag ystyried gofynion cwricwlwm i Gymru Canllawiau Fframwaith ar Hwb, rhaid i bob ysgol yn A.Ll Ceredigion roi sylw i Faes Llafur Cytûn Ceredigion ar gyfer CGM wrth ddylunio eu cwricwlwm.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw monitro darpariaeth statudol CGM, ac maent yn cael eu cefnogi i wneud hyn gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Ceredigion ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob awdurdod lleol sefydlu a chefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytûn er mwyn paratoi maes llafur CGM i'w fabwysiadu gan yr awdurdod lleol.

Mabwysiadwyd Canllawiau Statudol Cwricwlwm i Gymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar Hwb fel Maes Llafur Cytûn newydd Sir Ceredigion ar gyfer CGM ar y 7fed o Fawrth, 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r A.Ll gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar 3ydd o Fawrth, 2022. Ni fwriedir i'r Maes Llafur Cytûn hwn fod yn gynllun gwaith. Mae'n darparu fframwaith y gall pob ysgol ddylunio ei chwricwlwm lleol ei hun orau sy'n cynnwys CGM o fewn MDaPh y Dyniaethau. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Gellir gweld canllawiau statudol CGM Llywodraeth Cymru ar wefan Hwb:

Y Dyniaethau: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (gov.wales)

Gwelir gwybodaeth bellach yn y crynodeb am ofynion y ddeddfwriaeth ar Hwb:

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth - Hwb (gov.wales)

Gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru wneud cyfraniad unigryw tuag at gyflawni'r pedwar diben i bob dysgwr. Nod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw paratoi dysgwyr yng Nghymru, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus, ar gyfer bywyd a gwaith mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym.

Un o nodweddion pedwar diben y cwricwlwm yw y caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae gan Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg lawer o gyfraniadau gwerthfawr ac unigryw i'w gwneud i gwrdd â'r diben hwn a'r dibenion eraill. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u nodi yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig ac maen nhw'n cynnwys y cysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes.

Erbyn iddyn nhw gyrraedd 16 oed, dylai'r dysgwyr fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'n hanfodol bod agwedd ar CGM yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddisgyblion ar eu gwahanol gamau o ddatblygiad meddyliol ac emosiynol. Mae'n hanfodol ystyried sut rydym yn ei addysgu a pham rydym yn addysgu'r agweddau a ddewisir ar grefydd, gwerthoedd a

moeseg.

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- archwilio ac ymwneud â chwestiynau eithaf ac athronyddol;
- ymgymryd ag ymholiadau ac ymwneud â ffynonellau doethineb ac athroniaethau;
- datblygu a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain;
- defnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth;
- ystyried ym mha ffyrdd y mae crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiadau dynol drwy gydol hanes;
- gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn mynd i'r afael â materion egwyddorol a moesol hanesyddol;
- ymateb yn sensitif i grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol;
- datblygu gwerthoedd pendant a sefydlu eu credoau egwyddorol a'u hysbrydolrwydd;
- trafod eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill ar amrywiaeth o faterion, a myfyrio arnyn nhw.

Amser Cwricwlwm

Ar bob cam dilyniant, mae angen digon o amser ac adnoddau i ddarparu cwrs astudio effeithiol a chydlynol. Fel elfen orfodol o'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru, dylai CGM fod â thegwch â disgyblaethau eraill o fewn MDaPh y Dyniaethau.

Cynulleidfa

Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau wedi cael eu hysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm. Bydd yn rhaid i'r canlynol ystyried y canllawiau wrth gynllunio cwricwlwm:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56)
- awdurdod lleol yng Nghymru

Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nid oes rhaid i'r cyrff hyn ystyried y canllawiau ond gall fod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iddyn nhw gyfeirio atyn nhw er mwyn deall cynnwys cwricwlwm lleoliad penodol yn well.

Datblygiad Ysbrydol

Yng nghyd-destun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae datblygiad ysbrydol yn ymwneud â'n gallu naturiol i chwilio am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd, ei fynegi a'i ddeall, ac i gwestiynu pwy ydym ni a pham rydym ni yma.

Gall datblygiad ysbrydol gynnwys crefydd neu beidio. Drwy brofi cydberthnasau a myfyrio arnyn nhw, gall datblygiad ysbrydol ddod i'r amlwg yn y canlynol: hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill; cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol (ac, i rai pobl, â phŵer uwch neu realiti eithaf); creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin; archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas.

Cydaddoli

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 a Chylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig yn nodi'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir ar wahân i ysgolion arbennig. Nid yw'r gofynion yn gymwys i golegau addysg bellach neu i ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion babanod neu ysgolion cynradd.

Mae Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994 yn nodi'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion arbennig.

Dyma'r gofynion:

- rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob dydd ar gyfer pob disgybl cofrestredig
- dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd ym mhob tymor fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol yn fras; mae hyn yn golygu y dylent adlewyrchu traddodiadau eang y gred Gristnogol heb fod yn unigryw i unrhyw enwad Gristnogion penodol
- gall addoli ar y cyd ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.
- gellir darparu addoli ar y cyd i ddisgyblion mewn unrhyw grŵp o faint, er enghraifft, fel dosbarth, grŵp blwyddyn, grŵp cyfnod neu gymuned ysgol gyfan
- dylai addoli ar y cyd ystyried cefndiroedd, oedrannau a doniau'r disgyblion dan sylw.
- nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu addoli ar y cyd ar gyfer disgyblion o dan bump oed.

- gall rhiant ofyn i'w plentyn gael ei esgusodi rhag addoli ar y cyd ac mae'n rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath. Nid oes rhaid i rieni roi rhesymau dros eu dewis.

CYNLLUNIO EICH CWRICWLWM AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm, rhaid cynnwys cyfleoedd i ddysgu ac ystyried **themâu trawsgwricwlaidd** o fewn y Cwricwlwm i Gymru lle bo hynny'n briodol. Y themâu trawsgwricwlaidd hyn yw:

- addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd Gwaith,
- hawliau dynol, amrywiaeth,
- cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac
- addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae hefyd yn bwysig ystyried **sgiliau trawsgwricwlaidd** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â'r **sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben** (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu) wrth gynllunio'r cwricwlwm.

Wrth gwireddu eu cwricwlwm, bydd angen i ysgolion a lleoliadau benderfynu ar y ffordd orau o gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Er enghraifft, gellir cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd integredig, amlddisgyblaethol, ryngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol.

Wrth gynllunio a pharatoi eich cwricwlwm CGM, gweler isod ddolenni a fydd yn mynd â chi i adrannau perthnasol y canllawiau ar wefan Hwb:

Y Dyniaethau: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (gov.wales)

Y Dyniaethau: Egwyddorion cynnydd - Hwb (gov.wales)

Y Dyniaethau: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (gov.wales)

Wrth i ddysgwyr symud ymlaen, dylent gael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gwahanol ddisgyblaethau ac i arbenigo ynddynt. Dylai'r broses hon cael eu cefnogi gan addysgu sy'n arbenigo mewn disgyblaeth, sydd, ynghyd â'r ymagwedd amlddisgyblaethol at ddylunio'r cwricwlwm, baratoi dysgwyr sy'n ceisio arbenigo ymhellach yn ystod dysgu ôl-16. Bydd hyn yn gofyn i arbenigwyr addysgu CGM ac arbenigwyr i gael mewnbwn wrth ddylunio CGM o fewn y dyniaethau. Er y dylai dysgwyr gael cyfleoedd i arbenigo, rhaid i'r cwricwlwm barhau'n eang a chytbwys, a dylai pob dysgwr barhau i ddefnyddio dysgu o bob MDaPh drwy gydol eu hamser mewn addysg orfodol, sy'n cynnwys yr elfen orfodol o GGM.

Creu cysylltiadau

Wrth gynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau, dylid archwilio cysylltiadau a rhyng-ddibyniaethau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Meysydd eraill fel rhan o **gwricwlwm cyfannol**. Dylid defnyddio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau hyn wrth gynllunio'r cwricwlwm, a dylai ymarferwyr gydweithio'n greadigol er mwyn cefnogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Dylai ysgolion a lleoliadau hefyd ymdrechu i wneud cysylltiadau â gwahanol enwadau a grwpiau ffydd er mwyn ehangu ar brofiadau CGM eu dysgwyr er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u cynefin eu hunain o fewn hanes a thraddodiadau Sir Ceredigion a Chymru.

Ôl-16

Yng Nghwricwlwm i Gymru, mae statws gorfodol CGM wedi'i ddileu ar gyfer Blwyddyn 12 a13. Felly, mae CGM bellach yn ddewisol ar gyfer y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ysgolion unigol sydd â Chweched Dosbarth rhag amserlennu CGM. Mae gan y Chweched Dosbarth yr hawl i 'optio i mewn' i CGM a'r ysgol yn gyfreithiol yn gorfod darparu CGM ar gyfer y dysgwyr hynny ar gais.

Mae rhagor o wybodaeth am GGM Ôl-16 ar gael yma:

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth - Hwb (gov.wales)

Yr hawl i eithrio rhag Cwricwlwm Cymru

O fis Medi 2022, ni fydd hawl gan rieni i dynnu'n ôl o GGM. Mae rhagor o wybodaeth am yr hawl i gael eithriad ar gael yn y crynodeb cyfreithiol ar Hwb:

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth - Hwb (gov.wales)

Cwynion

O dan y Ddeddf Addysg, rhaid i'r A.Ll ddarparu trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â Chwynion. Felly bydd y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar CGM yn ystyried cwynion am ddarpariaeth CGM (neu ddiffyg darpariaeth CGM). Bydd y trefniant hwn yn rhoi'r cyfle i rieni ac eraill sicrhau darpariaeth CGM briodol ymhob ysgol yn Sir Ceredigion.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol